

2024 Rhif (Cy. )

2024 No. (W. )

## TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A4042  
(Little Mill, man i'r Gorllewin o  
Frynbuga i Gylchfan Hardwick,  
Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau  
Dros Dro) 2024

The A4042 Trunk Road (Little  
Mill, West of Usk to Hardwick  
Roundabout, Monmouthshire)  
(Temporary Prohibition of  
Vehicles) Order 2024

Gwnaed 23 Ionawr 2024

Made 23 January 2024

Yn dod i rym 29 Ionawr 2024

Coming into force 29 January 2024

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A4042, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A4042 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by sections 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

### Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Little Mill, man i'r Gorllewin o Frynbuga i Gylchfan Hardwick, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2024 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 29 Ionawr 2024.

### Title and commencement

1. The title of this Order is the A4042 Trunk Road (Little Mill, West of Usk to Hardwick Roundabout, Monmouthshire) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2024 and this Order comes into force on 29 January 2024.

### Dehongli

#### 2. Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("exempted vehicle") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

### Interpretation

#### 2. In this Order:

"exempted vehicle" ("cerbyd esempt") means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006(c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n cychwyn am 20:00 o’r gloch ar 29 Ionawr 2024 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A4042 Casnewydd i’r Amwythig yn Sir Fynwy.

### **Gwaharddiad**

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 162 o fetrau i’r gogledd o Gyffordd Little Mill yr A472 hyd at bwynt 40 o fetrau i’r de o ganolbwynt Cylchfan Hardwick.

### **Cymhwyso**

4. Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

### **Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, wrth weithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

23 Ionawr 2024

*Nicci Hunter*  
Arweinydd y Tîm Busnes  
Llywodraeth Cymru

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A4042 Newport to Shrewsbury Trunk Road in the County of Monmouthshire;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 20:00 hours on 29 January 2024 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

### **Prohibition**

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road that extends from a point 162 metres north of the A472 Little Mill Junction to a point 40 metres south of the centre point of Hardwick Roundabout.

### **Application**

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

### **Duration of this Order**

5. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated the

23 January 2024

*Nicci Hunter*  
Business Team Leader  
Welsh Government